

## CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, ar 14 Mai 2012**

**Minutes of Annual Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, on 14 May 2012**

**Yn Bresennol/Present:** Cyng Tom Cowcher Mrs Eileen Curry (Chair/Cadeirydd) Mrs Philippa Davies Keith Evans Terry Griffiths Andrew Howell Mrs Carolyn Reed-Rees Breian Teifi and County Cllrs Peter Davies and Peter Evans

**Croeso/Welcome:-** Estynnodd Cyng Mrs Eileen Curry groeso i bawb i'r Cyfarfod Blynyddol, gan longyfarch y Cynghorydd Sir, Peter Evans, ar gael ei ethol i gynrychioli Ward Llandysul. Yn ogystal, llongyfarchwyd Cynghorydd Peter Davies ar gael ei ailethol yn Gy nghorydd Sir ar gyfer wardiau Capel Dewi, Pont-siân a Thre-groes. Diolchodd Cyng Mrs Eileen Curry i Gyng Keith Evans, cyn Gy nghorydd Sir ac Arweinydd Ceredigion am ei waith diflino dros y blynyddoedd / Cllr Mrs Eileen Curry welcomed all to the Annual Meeting and congratulated County Councillor Peter Evans on being elected to represent Llandysul Ward. Congratulations were also extended to Councillor Peter Davies on being re-elected as County Councillor for the wards of Capel Dewi, Pontsian and Tregroes. Cllr Mrs Eileen Curry thanked Cllr Keith Evans, former County Councillor and Leader of Ceredigion for his endless hard work over the years.

**1 Llofnodwyd y Datganiad Derbyn Swydd gan gynnwys y Cod Ymddygiad** gan yr holl Gy nghorwyr a oedd yn bresennol.

**2 Ethol Cadeirydd:-** Diolchodd Cyng Mrs Eileen Curry i'r Cyngor am yr anrhydedd o gael bod yn Gadeirydd a gofynnodd i'r Cyngor ethol Cadeirydd. Cynigiodd Cyng Breian Teifi y dylid ailethol Cyng Mrs Eileen Curry yn Gadeirydd, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Keith Evans ac fe'i dderbyniwyd. Diolchodd Cyng Mrs Eileen Curry i'r Cyngor am ymddiried ynnddi fel Cadeirydd am flwyddyn arall. Llofnodwyd Datganiad Derbyn Swydd pellach, yn cynnwys y Cod Ymddygiad, gan Gyng Mrs Eileen Curry fel Cadeirydd.

**3 Ethol Is-Gadeirydd:-** Galwodd Cyng Mrs Eileen Curry ar y Cyngor i ethol Is-Gadeirydd. Cynigiodd Cyng Mrs Philippa Davies enw Cyng Tom Cowcher, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Breian Teifi ac fe'i dderbyniwyd. Diolchodd Cyng Tom Cowcher i'r Cyngor.

**1 Declaration of Acceptance of Office to include Code of Conduct** was signed by all Councillors present.

**2 Election of Chair:-** Cllr Mrs Eileen Curry thanked the Council for the privilege of being Chair and called upon the Council to elect a Chair. Cllr Breian Teifi proposed that Cllr Mrs Eileen Curry be re-elected as Chair, this was seconded by Cllr Keith Evans and carried. Cllr Mrs Eileen Curry thanked the Council for entrusting her with the chairmanship for another year. A further Declaration of Acceptance of Office to include Code of Conduct was signed by Cllr Mrs Eileen Curry as Chair.

**3 Election of Vice-Chair:-** Cllr Mrs Eileen Curry called upon the Council to elect a Vice-Chair. Cllr Mrs Philippa Davies proposed Cllr Tom Cowcher, this was seconded by Cllr Breian Teifi and carried. Cllr Tom Cowcher thanked the Council.

**4 Ethol Pwyllgor Cynllunio:-** Gwnaethpwyd y penderfyniadau unfrydol canlynol:- Ward Capel Dewi – Cyng Tom Cowcher. Ward Pont-siân – Cyng Mrs Philippa Davies. Ward Tref Llandysul – O ystyried salwch Cyng Wyn Evans, etholwyd Cyng Breian Teifi i'r Pwyllgor Cynllunio. Tre-groes – Etholwyd Cyng Mrs Eileen Curry i gymryd lle Mr Richard Anwyl. Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig parhaus i'r Clerc ddelio gyda'r ceisiadau rhwng cyfarfodydd, trwy gysylltu â'r aelodau perthnasol.

**5 Ethol Pwyllgor Cyllid:-** Penderfynwyd fel a ganlyn:- Ail-etholwyd Cynghorwyr Douglas Davies ac Andrew Howell. Bydd Cyng Breian Teifi yn cymryd lle Cyng Wyn Evans.

**6 Archwiliwr Mewnol:-** Penderfynwyd y bydd Mr R J Foulkes yn parhau i gyflawni rôl yr Archwiliwr Mewnol.

**7 Rheolaeth Fewnol/Gwiriwr Mewnol:-** Penderfynwyd y dylai Cyng Mrs Carolyn Reed-Rees barhau i gyflawni'r gwaith.

**8 Asesiad Risg:-** Mae camau priodol er mwyn rheoli Rheolaeth Fewnol/Asesu Risg ac adolygu'r sicrwydd Yswiriant wedi cael eu cymryd.

**9 Derbyn Mantolen/Datganiad Cyfrifon:-** Cynigiodd Cyng Philippa Davies y dylem dderbyn y Cyfrifon fel cofnod cywir o drafodion y Cyngor dros y flwyddyn, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Andrew Howell ac fe'i dderbyniwyd. Penderfynwyd cofnodi bod mwy o arian yn cael ei wario na'r swm sy'n dod i mewn. Yn ogystal, mae angen cofio am gronfeydd y maent wedi cael eu neilltuo yn barod, gan gynnwys:- Hen Gapel Llwynrhydowen £10,000, Cynllun Balchder Pentrefi, cymorth parhaus lleol a chymorth i ddiwydiadau cymunedol, estyniad i bafiliwn Tir Dref ac ati.

**10 Cafwyd Ymddiheuriadau** wrth Gynghorwyr Beth Davies, Douglas Davies a Wyn Evans.

**11 Datgelu Buddiannau:-** Roedd Cyng Tom Cowcher yn dymuno datgelu budd mewn perthynas â Llandysul a Phontweli Ymlaen a Chynllunio. Mae Cyng Keith Evans wedi sicrhau goddefeb mewn perthynas â Llandysul a Phontweli Ymlaen.

**4 Election of Planning Committee:-** It was unanimously resolved as follows:- Capel Dewi Ward - Cllr Tom Cowcher. Pontsian Ward – Cllr Mrs Philippa Davies. Llandysul Town Ward – In view of Cllr Wyn Evans' ill health, Cllr Breian Teifi was elected to the Planning Committee. Tregroes – Cllr Mrs Eileen Curry was elected to replace Mr Richard Anwyl. Continued delegated authority was given to the Clerk to deal with the applications between meetings by contacting the relevant members.

**5 Election of Finance Committee:-** It was resolved as follows:- Cllrs Douglas Davies and Andrew Howell were re-elected. Cllr Breian Teifi will replace Cllr Wyn Evans.

**6 Internal Auditor:-** It was resolved that Mr R J Foulkes continues as Internal Auditor.

**7 Internal Control/Internal Checker:-** It was resolved that Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees continues to carry out the work.

**8 Risk Assessment:-** Appropriate steps to manage Internal Control/Risk Assessment and review of Insurance cover have been taken.

**9 To Receive Balance Sheet/Statement of Accounts:-** Cllr Philippa Davies proposed that we accept the Accounts as a true record of the Council's transactions over the year, this was seconded by Cllr Andrew Howell and carried. It was decided to record that more is being spent than what is coming in. Earmarked funds also being kept in mind including:- Hen Gapel Llwynrhydowen (Chapel) £10,000, Balchder Pentrefi Scheme, continued local support and support to local community events, Tir Dref pavilion extension etc.

**10 Apologies** were received from Cllrs Beth Davies, Douglas Davies and Wyn Evans.

**11 Declarations of Interest:-** Cllr Tom Cowcher declared an interest in connection with Llandysul a Phontweli Ymlaen and Planning. Cllr Keith Evans has dispensation in connection with Llandysul a Phontweli Ymlaen.

**12** Derbyniwyd bod **Cofnodion** y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2012 yn gofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**13 Materion yn Codi**:- Adroddodd Cyng S Peter Evans bod y Cyngor Sir yn cymryd camau er mwyn trefnu bod y glanhawr strydoedd yn cael cart. Penderfynwyd y dylai'r Cyngor Sir edrych i weld ble mae'r hen gart yn cael ei gadw.

**14 BDO – Datganiad Blynyddol – 31.3.2012**:- Penderfynwyd bod y Cyngor Cymuned yn cymeradwyo **Adran 1 – Datganiadau Ariannol** sef dadansoddiad o'r ffigurau a gymeradwywyd dan eitem “9” uchod. Llofnodwyd **Tystio cyn yr archwiliad** gan y Clerc. Hefyd, llofnodwyd **Cadarnhad y Cyngor cyn yr archwiliad** gan y Cadeirydd a'r Clerc. **Adran 2** – Penderfynwyd cymeradwyo'r **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** ar yr amod bod y Clerc yn arddangos hysbysiad cyhoeddus sy'n nodi bod y cofnodion ar gael i'w harchwilio rhwng 11/06/2012 a 6/7/2012. Mae'r Archwiliwr Mewnol a'r Gwiriwr Mewnol wedi archwilio'r wybodaeth hefyd. Bydd **Adran 4** yn cael ei llenwi gan yr Archwiliwr Mewnol cyn yr Archwiliad. Yna, caiff y ffurflen ei hanfon ymlaen at BDO, sef yr Archwiliwr Allanol. Ar ôl yr Archwiliad Allanol, bydd **Adran 3** yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor a'i llofnodi gan y Cadeirydd a'r Clerc. Cynhelir y weithdrefn uchod yn unol ag amserlen benodedig yr Archwiliwr.

**15 Rhoddion** (Gweler “11” uchod)

- a) **Cymdeithas Chwaraeon** – (a19) Cafwyd anfonebau am y gwaith a gyflawnwyd a derbyniwyd y dylid talu'r grant a gymeradwywyd, sef £3,000. Roedd Cyng Keith Evans wedi mynychu'r seremoni agoriadol.
- b) **Lleisiau Bro Eirwyn** – (a145) Cafwyd anfoneb am y swm o £400 am y piano trydan, a derbyniwyd y dylid talu'r grant a gymeradwywyd. Cafwyd gwahoddiad i'r cyngerdd agoriadol a gynhelir yng Ngwesty Porth ar 22 Mehefin 2012 am 7.30pm.
- c) **Capel Seion** – (gofynnwyd am £3,000) Cafwyd ffurflen cais am grant wedi'i llenwi ar gyfer y gwaith i'w wneud ar ffenestr, ynghyd â'r dyfynbris a dderbyniwyd. Penderfynwyd gofyn iddynt wneud cais i'r Cyngor Sir yn gyntaf, ac yna, dod yn ôl atom. Yn ogystal, penderfynwyd gofyn am gopiau o'r dyfynbrisiau eraill.

**12 Minutes** of monthly meeting held on 9 April 2012 were accepted as correct and signed by the Chair.

**13 Matters Arising**:- C Cllr Peter Evans reported that steps are being taken by the County Council to get a cart for the street cleaner. It was decided that the County Council should check as to the location of the existing cart.

**14 BDO – Annual Return – 31.3.2012**:- It was resolved that the Community Council approve **Section 1 – Accounting Statements** being a breakdown of the figures approved under “9” above. **Certification prior to audit** was signed by the Clerk. Also, **Confirmation prior to audit** was signed by the Chair and Clerk. **Section 2** – It was resolved to approve of **The Annual Governance Statement** subject to the Clerk displaying a notice to the public informing that the records are available for inspection from 11/06/2012 to 6/7/2012. Internal Auditor and Internal Checker have also checked the information. **Section 4** is to be completed by the Internal Auditor prior to the Audit. The form is then to be forwarded to BDO being the External Auditor. After the External Audit, **Section 3** is to be approved by the Council and signed by the Chair and Clerk. The above procedure is carried out following the Auditor's specified timetable.

**15 Donations** (See “11” above)

- a) **Cymdeithas Chwaraeon** – (s19) Supporting invoices for the work carried out were received and the approved grant in the sum of £3,000 was passed for payment. Cllr Keith Evans had attended the opening ceremony.
- b) **Lleisiau Bro Eirwyn** – (s145) Invoice was received for the electric piano and the approved grant in the sum of £400 was passed for payment. An invitation was received to the opening concert to be held at the Porth Hotel on the 22<sup>nd</sup> June 2012 at 7.30pm.
- c) **Seion Chapel**– (£3,000 requested) Completed grant application was received for work to be carried out on a window together with the accepted quote. It was decided to request that they firstly make an application to the County Council and then revert to us. It was also decided to request copies of the other quotes.

d) Llandysul a Phontweli Ymlaen – Gŵyl Fwyd (a145) (gofynnwyd am £4,000) Cafwyd ffurflen cais am Grant wedi'i llenwi. Cynigiodd Cyng Mrs Carolyn Reed-Rees y dylid rhoi rhodd o £4,000, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Mrs Philippa Davies ac fe'i dderbyniwyd.

e) Sioe Llandysul – (a145) (gofynnwyd am £800) Cynigiodd Cyng Mrs Philippa Davies y dylid rhoi £800, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Andrew Howell ac fe'i dderbyniwyd.

f) Sioe Pren-gwyn – (a145) (gofynnwyd am £500) Cynigiodd Cyng Andrew Howell y dylid rhoi £500, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Mrs Carolyn Reed-Rees ac fe'i dderbyniwyd.

g) Cafwyd Cydnabyddiaeth derbyn Rhodd gan Ganolfan Ddŵr Llandysul Aqua Centre a Llandysul Family Centre.

### **16 Gohebiaeth:-**

a) Cafwyd y canlynol wrth Geredigion:- Grantiau Torri Prysgwydd i Gynghorau Tref/Cymuned – Roedd y cais wedi bod yn llwyddiannus. Cawsom ein hysbysu am drefniadau i gau'r ffordd yn Nhre-groes rhwng 14 ac 18 Mai 2012 a Lôn Wesley ar 24 Mai 2012. Praesept 2012/3 – Cafwyd y taliad, sef swm o £32,260.32. Cafwyd Trefniadau Taith Gyfnewid y Fflam Olympaidd – Diweddariad. Cafwyd gwybodaeth ynghylch Ble Wnaethoch Chi Barcio Heddiw? Tir gyferbyn â Stryd Charles (gyferbyn â Neuadd Tysul) – Cawsom ein hysbysu o'r ffaith bod Ceredigion wedi cael Hysbysiad B237, cais i newid cyfeiriad gwasanaeth. Mae'r Clerc wedi cysylltu â'r Gofrestrfa Tir ac mae hyn yn cael ei gywiro. Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor a Derbyniad Anffurfiol – 25 Mai 2012 – Cafwyd gwahoddiad gan y Cadeirydd etholedig, Cyng Mark Cole, i'r Cadeirydd a'r Clerc fynychu a byddant yn mynychu. Cafwyd ac arddangoswyd hysbysiadau yn nodi enwau'r Cynghorwyr a etholwyd yn ddiwrthwynebiad. Derbyniwyd a llofnodwyd ffurflenni Datganiad Derbyn Swydd, ynghyd â chopi o'r Cod Ymddygiad ar gyfer yr Aelodau, ac fe'u llofnodwyd (gweler eitem "1" uchod). Mae gennym 1 lle gwag yn Ward Tref Llandysul ac 1 lle gwag yn Ward Tre-groes. Gofynnir i'r Cyngor lenwi'r rhain trwy gyfrwng trefniant cyfethol. Caiff posteri eu harddangos.

d) Llandysul a Phontweli Ymlaen – Food Festival (£4,000 requested) Completed Grant application form was received. It was proposed by Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees to give a donation of £4,000, this was seconded by Cllr Mrs Philippa Davies and carried.

e) Llandysul Show – (s145) (£800 requested) Cllr Mrs Philippa Davies proposed £800, this was seconded by Cllr Andrew Howell and carried.

f) Prengwyn Show – (s145) (£500 requested) Cllr Andrew Howell proposed £500, this was seconded by Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees and carried.

g) Acknowledgement of receipt of Donation was received from Canolfan Ddŵr Llandysul Aqua Centre and Llandysul Family Centre.

### **16 Correspondence:-**

a) The following were received from Ceredigion:- Community/Town Council Brush Cutting Grants – Bid has been successful. We were notified of closure of road at Tregroes between 14 and 18 of May 2012 and Lôn Wesley on 24 May 2012. Precept 2012/3 – Payment has been received in the sum of £32,260.32. Olympic Torch Relay Arrangements – Update was received. Information was received re Where Did You Park Today? Land at Charles Street (opp Neuadd Tysul) – We were informed of B237 Notice of an application to change an address for service had been received by Ceredigion. Clerk has contacted Land Registry and this is being rectified. Annual Meeting of the Council & Informal Reception – 25 May 2012 – Invitation was received from Chairman elect, Cllr Mark Cole, for the Chair and Clerk to attend and will be attending. Notices were received and displayed with the names of the Councillors who have been elected unopposed. Declaration of Acceptance of Office forms together with a copy of the copy of the Code of Conduct for Members were received and signed (see "1" above). We have 1 vacancy in Llandysul Town Ward and 1 vacancy in Tregroes Ward. The Council is requested to fill these by way of co-option. Posters are to be displayed.

b) **Un Llais Cymru** - mae Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cyngorau Lleol wedi cael ei roi ar Agenda'r cyfarfod chwarterol. **Aelodaeth** - Cafwyd cydnabyddiaeth derbyn taliad. Gofynnwyd i ni enwebu Cyngorydd i'n cynrychioli yn y cyfarfod chwarterol. Penderfynwyd y bydd Cyng Andrew Howell yn parhau i'n cynrychioli. Cafwyd negeseuon e-bost ynghylch:- Arweiniad a Pholisi Pryderon a Chwynion Model, Cylchlythyr Cyllid Ebrill/Mai 2012, Materion Amgylcheddol, Llyfryn Adnoddau Gwreiddiau Cadarn, Y Cinio Jiwbilf Mawr, Datganid i'r Wasg y Comisiwn Ffiniau i Gymru, Llyfr Achosion yr Ombwdsmon - Rhifyn 8 a Gwybodaeth am Ariannu.

c) **Cyngor Sir Gâr** – Cafwyd llythyr ynghylch Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin – Ymgynghoriad Safleoedd Amgen (Cyflwyniadau ynghylch Neilltuo Safleoedd).

d) **Sefydliad y Merched** – Cafwyd llythyr ynghylch materion amrywiol a phenderfynwyd ar y canlynol:- Parcio – Ymateb fel y cofnodwyd yn ein cofnodion ym mis Ebrill. Arwyddion Ffordd i Llandysul – Bydd Cyng S Peter Evans yn gwneud ymholiadau pellach rhwng C S Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Bysiau – Mae gennym wasanaeth gwych yn Llandysul ar hyn o bryd a byddwn yn cynghori Sefydliad y Merched i gysylltu â Llandysul a Phontweli Ymlaen er mwyn cael gwybodaeth bellach ar wasanaethau. Ffordd Osgoi Llandysul – Mae'r arwyddion sy'n cyfeirio pobl i Landysul a'i mwynderau yn dda. Gofynnir am awgrymiadau Sefydliad y Merched ynghylch sut y byddai modd denu ymwelwyr.

e) **Bwcabus** – Cafwyd cylchlythyr.

f) **Shelter Cymru** – Cawsom ein hysbysu am brosiect Cyngor 50+Advice a lansiwyd yn ddiweddar.

g) **Treth Tanwydd Ambiwylans Awyr** – Cafwyd a dosbarthwyd deiseb ar ffurf neges e-bost er mwyn annog y Llywodraeth i drefnu nad oes yn rhaid i'r Ambiwylans Awyr dalu treth ar y tanwydd y byddant yn ei ddefnyddio.

h) **Ieuenticid Tysul Youth** – Cafwyd gwahoddiad i seremoni agoriadol “Celf yn y Parc” a'r Dathliad 12 Mlynedd – 26 Mai 2012.

b) **One Voice Wales** – Certificate in Local Council Administration has been placed on the Agenda for the quarterly meeting. **Membership** – Acknowledgement of receipt of payment was received. We were requested to nominate a Councillor to represent us at the quarterly meeting. It was resolved that Cllr Andrew Howell will continue to represent us. E-mails were received re:- Model Concerns and Complaints Policy and Guidance, Funding Newsletter April/May 2012, Environment Matters, Strong Roots Resource Booklet, The Big Jubilee Lunch, Boundary Commission for Wales Press Notice, The Ombudsman's Casebook – Issue 8 and Funding Information.

c) **Carmarthenshire County Council** – Letter was received re Carmarthenshire Local Development Plan - Alternative Sites (Site Allocation Representations) Consultation.

d) **Women's Institute** – Letter was received re various matters and the following was resolved:- Parking – Respond as recorded in our April minutes. Road Signage to Llandysul – C Cllr Peter Evans will make further enquiries between Ceredigion and Carmarthenshire C C. Buses – We have an excellent service at Llandysul at present and the WI are to be advised to contact Llandysul a Phontweli Ymlaen for further information on services. Llandysul By-Pass – Llandysul and its amenities are well signposted. The W I are to be asked for suggestions as to how to attract visitors.

e) **Bwcabus** – Newsletter was received.

f) **Shelter Cymru** – We were informed of new Cyngor 50+Advice project recently launched.

g) **Air Ambulance Fuel Duty** - E-mail petition to encourage the Government to exempt Air Ambulance services from duty on the fuel they use was received and circulated.

h) **Ieuenticid Tysul Youth** – Invitation was received to “Art in the Park” opening ceremony and 12<sup>th</sup> Birthday Celebration – 26 May 2012.

- i) **Comisiwn Ffiniau i Gymru** – Cawsom ein hysbysu o'r ffaith bod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben, ond bydd cyfnod ymgynghori pellach yn cael ei drefnu.
- j) **Yr Arolygiaeth Gynllunio** – Cafwyd gwybodaeth ynghylch Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa.
- k) Cafwyd **The Clerk Journal**.
- l) Cafwyd **Clerk's and Councils Direct**.
- m) **CaThEM** – Talwyd y swm o £1,248.89 i mewn i'r banc, sef ad-daliad TAW.
- n) **SLCC** – cafwyd gohebiaeth.
- o) **Anfonebau**
- i) **Llinos Jones** – Cytunwyd y dylid talu'r ffi am gyfieithu ym mis Mai, sef £122.75.
- ii) **R J Foulkes** – Cafwyd cadarnhad bod y cyfrifon ar 31 Mawrth 2012 wedi cael eu harchwilio, ac y canfuwyd eu bod yn gywir yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd, a derbyniwyd y dylid ysgrifennu sic i dalu'r ffi, sef £25. Yn ogystal, mae Cyng Mrs Carolyn Reed-Rees, fel y gwiriwr mewnol, wedi archwilio'r cyfrifon.
- iii) **SWALEC** – Cafwyd anfoneb am y swm o £640.28 mewn perthynas â Goleuadau Nadolig 2011, a derbyniwyd y dylid ei thalu.
- iv) **The Greenhouse** – Cafwyd anfoneb am y swm o £950 am waith cynnal a chadw darnau o dir wedi'u plannu a derbyniwyd y dylid ei thalu.
- v) **Compass Office Supplies** – Cafwyd anfoneb am y swm o £151.80 am inc, a derbyniwyd y dylid ei thalu.
- vi) **BT** – Cafwyd anfoneb am y swm o £98.76 am wasanaeth ffôn a band eang a derbyniwyd y dylid ei thalu.
- 17 Cynnal a chadw darnau o Dir wedi'u Plannu gerllaw y Pwll Nofio ac oddi ar Stryd y Brenin** – Yr unig ddyfynbris a gafwyd oedd yr un gan The Greenhouse am £990. Penderfynwyd derbyn y dyfynbris.
- 18 Ciosgau Coch** – Mae'r gwaith yn parhau.
- 19 Balchder Pentrefi** – Mae'r gwaith yn parhau, ond mae angen cydymffurfio gydag amodau a thelerau niferus. Bydd angen llythyr yn cadarnhau y bydd/na fydd angen caniatâd Cynllunio.
- 20 Pobl Ifanc yn y Gymuned – Meini Prawf** – Ymddiheurodd Cyng Andrew Howell na wnaethpwyd unrhyw gynnydd ynghylch y mater hwn, a bydd yn aros ar yr Agenda.

- i) **Boundary Commission for Wales** – We were informed that the date of the consultation period had closed but a further consultation period will be arranged.
- j) **The Planning Inspectorate** – Information was received re Brechfa Forest West Wind Farm.
- k) **The Clerk Journal** was received.
- l) **Clerk's and Councils Direct** was received.
- m) **HMRC** – Reimbursement of Vat has been paid into the bank in the sum of £1,248.89.
- n) **SLCC** – correspondence was received.
- o) **Invoices**
- i) **Llinos Jones** – Fee for translating in the sum of £122.75 for May was approved for payment.
- ii) **R J Foulkes** – Confirmation was received that the accounts as at 31 March 2012 have been examined and found to be correct on the information provided and cheque passed in payment for the fee of £25. Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees as internal checker has also checked the accounts.
- iii) **SWALEC** – Invoice was received in the sum of £640.28 in connection with Christmas Lighting 2011 and passed for payment.
- iv) **The Greenhouse** – Invoice was received in the sum of £950 for maintenance of planted areas of land and passed for payment.
- v) **Compass Office Supplies** – Invoice was received in the sum of £151.80 for ink and passed for payment.
- vi) **BT** – Invoice was received in the sum of £98.76 for telephone and broadband and passed for payment.
- 17 Maintenance of Planted areas of Land near Swimming Pool and Off King Street** – The only quote received back was from The Greenhouse for £990. It was resolved to accept the quote.
- 18 Red Kiosks** – Work is progressing.
- 19 Balchder Pentrefi** – Work is progressing but, there are numerous terms and conditions to comply with. Letter will be required confirming that Planning will/will not be required.
- 20 Young People in the Community – Criteria** – Cllr Andrew Howell apologised that no progress has been made and is to remain on the Agenda.

**21 Dathblygiadau Blodau yn Llandysul – Dysglau Plannu** – Mae Ceredigion wedi cysylltu â'r Clerc ond nid ydynt wedi rhoi dyfynbris eto. Yr unig ddyfynbris a gafwyd ynghylch dyfrhau'r planhigion oedd y dyfynbris gan Mr Allan Clifford am y swm o £650.00 a phenderfynwyd derbyn y dyfynbris.

**22 Lwfans y Cadeirydd:-** Gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol y dylai swm y lwfans aros yr un fath, sef £300.

**23 Cyflog y Clerc** - (Gadawodd y Clerc yr ystafell yn ystod y drafodaeth) Gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol y dylid codi Cyflog y Clerc i'r swm o £486.25 y mis.

**24 Cynllunio:**

(Fel Cyngorwyr Sir, roedd Cyng Peter Davies a Chyng Peter Evans yn dymuno cofnodi nad oeddent wedi mynegi barn mewn perthynas ag unrhyw rai o'r Ceisiadau Cynllunio, a'u bod wedi gadael yr ystafell). Yn ogystal, roedd Cyng Tom Cowcher yn dymuno datgelu budd mewn perthynas â Neuadd Eglwys Capel Dewi, a gadawodd yr ystafell.

Archwiliwyd a chymeradwywyd y cynlluniau canlynol:-  
Neuadd Eglwys Capel Dewi – Newid defnydd o ystafell storio i Siop Gymunedol.

#### **Caniatâd Cynllunio**

Cwm March, Pren-gwyn – Adeilad storio amaethyddol.  
Awelon, Llanfihangel-ar-Arth – Sied er mwyn storio.  
Ffos-Esgob, Pren-gwyn – Adnewyddu ac addasiadau (LB)

**21 Development of Llandysul Flowers – Planters** – Ceredigion have reverted to the Clerk but have not yet provided a quote. The only quote received back for watering of plants was from Mr Allan Clifford in the sum of £650.00 and it was resolved to accept the quote.

**22 Chair's Allowance:-** It was unanimously resolved that the allowance should remain at £300.

**23 Clerk's Salary** – (The Clerk left the room during the discussion). It was unanimously resolved that the Clerk be awarded an increase in Salary.

**24 Planning:**

(Cllr Peter Davies and Cllr Peter Evans as County Councillors wished to record that they had not expressed an opinion in connection with any of the Planning Applications and left the room).  
Cllr Tom Cowcher also declared an interest in connection with Capel Dewi Church Hall and left the room.

The following plans were inspected and approved:-  
Capel Dewi Church Hall – Change of use from store room to Community Shop.

#### **Planning Permission**

Cwm March, Prengwyn – Agricultural storage building.  
Awelon, Llanfihangel-ar-Arth – Shed for storage.  
Ffos-Esgob, Prengwyn – Renovation and alterations (LB)